# CND




Ai hwn yw'r symbol enwocaf yn y byd tybed? Ym Mhrydain, mae'n sefyll am '*Campaign for Nuclear Disarmament'* (CND) tra bo'n symbol o heddwch yn gyffredinol yng ngweddill y byd.


Cafodd ei ddylunio yn 1958 gan Gerald Holtom, dylunydd ac arlunydd proffesiynol. Fe'i dangosodd i'r *Direct Action Committee Against Nuclear War*, un o nifer o sefydliadau bychain a ymunodd â'i gilydd i sefydlu CND, ac fe'i mabwysiadwyd fel y logo swyddogol.

**Ymddangosiad cyntaf**

Yng ngorymdaith gwrth niwclear y *Direct Action Committee* o Lundain i Aldermaston yn ystod penwythnos y Pasg 1958 yr ymddangosodd y symbol yn gyhoeddus gyntaf. Cynhyrchwyd pum cant o 'lolipops' cardfwrdd o'r symbol ar ffyn - dau gant a hanner ohonynt yn ddu ar wyn a dau gant a hanner yn wyn ar wyrdd. Dros benwythnos y Pasg, y bwriad oedd cyfnewid un fersiwn am un arall i gynrychioli'r syniad 'o Aeaf i Wanwyn, o Farwolaeth i Fywyd'. Y rhai du ar wyn a gariwyd ar Ddydd Gwener y Groglith a'r rhai gwyn ar wyrdd ar Ddydd Sul a Dydd Llun y Pasg.

**Beth yw ei ystyr?**

Yn ôl Gerald Holtom, a oedd yn wrthwynebydd cydwybodol ac yn gweithio ar fferm yn Norfolk yn ystod yr Ail Ryfel Byd, mae'r symbol yn ymgorffori'r llythrennau **N**(uclear) and **D**(isarmament), fel y maen nhw'n ymddangos yn y wyddor semaffôr, a hynny o fewn cylch sy'n cynrychioli'r byd.



*Llun: Wwbread/wikimedia*

Mewn llythyr at Hugh Brock, golygydd Peace News, eglurodd ei deimladau wrth gynllunio'r arwydd:

*'Do'n i ddim yn gwybod ble i droi; teimlo'n isel. Tynnais lun ohonof fy hun gyda fy nwylo wedi eu dal allan fel pe bawn yn fy ngwarchod fy hun rhag cael fy saethu. Yna, mi gynlluniais y rhan o'r dwylo yn y llun yn fwy ffurfiol gan osod y llinellau y tu mewn i gylch.'*

Wrth ganmol y cynllun, ychwanegodd aelod arall o CND, Eric Austin, ei ddadansoddiad ei hun gan ddweud, '*Mae'r teimlad yna o fethu gwybod ble i droi wedi cael ei gysylltu â marwolaeth, a'r cylch wedi cael ei gysylltu â baban yn y groth*'

Yn wreiddiol ystyriodd Gerald Holtom ddefnyddio'r groes Gristnogol o fewn cylch fel symbol ar gyfer yr orymdaith ond pan ofynnodd am farn eraill nid oedd pawb yn hapus gyda'r syniad. Bellach mae cennin Pedr ar symbol CND Cymru ac ysgall ar un yr Alban.

**Camddehongli a chamddefnyddio**



Mae rhai wedi honni bod gan y symbol gysylltiadau hŷn, gwrth- Gristnogol. Yn Ne Affrica, pan oedd apartheid mewn bodolaeth, cafwyd ymdrech swyddogol i'w wahardd oherwydd y defnydd o'r lliwiau du a gwyn. Mae nifer o grwpiau asgell dde yn America wedi ceisio dadlau fod iddo gysylltiadau satanaidd neu wedi ei gondemnio am eu bod yn ei weld fel symbol Comiwnyddol. Fodd bynnag, mae'r syniadau tu ôl i'r symbol wedi cael eu hegluro yn fanwl gan Gerald Holtom mewn llythyrau a chyfweliadau.

Er iddo gael ei gynllunio ar gyfer y mudiad gwrth-niwclear nid yw erioed wedi bod o dan hawlfraint, a hynny yn fwriadol. Mae'n symbol o ryddid. Nid oes raid i neb dalu na chael caniatâd i'w ddefnyddio. Ond oherwydd hyn mae wedi cael ei ddefnyddio weithiau mewn dulliau sydd ddim yn plesio CND.



Mae hefyd wedi cael ei ecsbloetio ar gyfer hysbysebu, ffasiwn neu fasnach ac ni ellir rhwystro hyn rhag digwydd. Y cyfan mae CND yn ei wneud ydy gofyn am gyfraniad pan gaiff ei ddefnyddio, ac mae pob dimai a dderbynnir yn cael ei roi tuag at hybu gwaith addysgol a chyflwyno gwybodaeth am CND.